Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
—
Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation Committee

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru

27 Hydref 2020

Annwyl Jeremy,

Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU a Japan

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ("y Pwyllgor") yn ystyried Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU a Japan ("Cytundeb y DU a Japan") ac yn anelu at ymateb i'r cytundeb hwn cyn terfyn amser Senedd y DU ar gyfer craffu, sef 7 Rhagfyr 2020.

Er mwyn cynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o Gytundeb y DU a Japan, ac a all amlinellu sut y mae'n wahanol i Gytundeb Partneriaeth Economaidd Japan a'r UE ("Cytundeb Japan a'r UE")?

2. Sut y mae Cytundeb y DU a Japan yn debygol o effeithio ar:
   - sectorau unigol yng Nghymru;
   - defnyddwyr o Gymru; a
   - materion cymdeithasol, llafur, amgylcheddol a lles anifeiliaid?

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn y gorffennol mai cytundeb rhwng y DU a Japan oedd ei phrif flaenoriaeth, ar ôl cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE, er mwyn sicrhau parhad i fusnesau sydd eisoes yn elwa o'r cytundeb rhwng yr UE a Japan. A yw Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd Cytundeb y DU a Japan yn sicrhau parhad llawn i fusnesau Cymru?

4. A yw'r asesiad effaith terfynol ar gyfer Cytundeb y DU a Japan yn gyson â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith bosibl y cytundeb ar economi, sectorau a busnesau Cymru?

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

5. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gwnaed gwelliannau ychwanegol i Gytundeb y DU a Japan o'i gymharu â Chytundeb Japan a'r UE, gan gynnwys yn y sectorau digidol a data, gwasanaethau ariannol a bwyd a diod. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ddeall sut y bydd yr addasiadau a wnaed i Gytundeb y DU a Japan o'i gymharu â Chytundeb Japan a'r UE yn effeithio ar sectorau a busnesau yng Nghymru?

6. Gwneir darpariaethau yng Nghytundeb y DU a Japan ar gyfer cydweithredu pellach mewn meysydd fel dynodiadau daearyddol, amaethyddiaeth, a chefnogaeth i fusnesau bach a chanolig. Mae hyn hefyd yn cynnwys sefydlu gweithgorau fel y Gweithgor ar Fasnach a Grymuso Menywod yn Economaidd, ac ar Gydweithrediad ym Maes Amaethyddiaeth. Pa sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ei gael y bydd yn rhan o unrhyw drafodaethau dwyochrog yn y dyfodol sy'n effeithio ar feysydd cymhwysedd datganoledig?

Oherwydd yr amserlen graffu ar gyfer y cytundeb hwn, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn dydd Gwener 6 Tachwedd 2020. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried eich ymateb yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

Yn gywir,



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.